Robert Raikes 1736–1811

Hyrwyddwr yr Ysgol Sul yn Lloegr

Ganwyd Robert Raikes yng Nghaerloyw ar 14 Medi 1736, yr hynaf o saith o blant i'r argraffydd Robert Raikes a'i briod Mary. Sefydlodd ei dad y *Gloucester Journal* ym 1722 ac fe etifeddodd y busnes ar ôl marwolaeth ei dad. Ym 1767 priodod Anne Trigge ac fe gawsant ddeg o blant. Bu farw dau ohonynt yn eu plentyndod. Roedd gan Raikes natur ddyngarol a dangosai ofal mawr dros y tlawd a'r gorthrymedig ac yr oedd yn pryderu am y cam-drin oedd yn digwydd yng ngharchar Caerloyw. Ymwelai'n gyson â'r carchar gyda rhoddion a cheisiai wella amgylchiadau'r carcharorion. Rhoddodd lety i John Howard, yr arloeswr mewn diwygio carchardai, pan ymwelodd â Chaerloyw ym 1773.

Daeth y weledigaeth o gynnal Ysgol Sul i Raikes pan oedd ar ymweliad ag un o ardaloedd tlotaf Caerloyw. Aeth yno i logi garddwr ac wrth siarad gyda gwraig y garddwr sylwodd ar gyflwr criw o blant aflywodraethus gerllaw. Dywedodd hi wrtho fod y sefyllfa yn waeth ar y Sul gan ei bod yn ddiwrnod o'r gwaith iddynt. Byddai'n cael ei dychryn gan eu hymddygiad, eu tyngu a'u rhegi ac nid oedd eu rhieni yn malio'r un botwm corn amdanynt.

O ganlyniad ymwelodd Raikes â'r Parch. Thomas Stock oedd yn gurad mewn plwyf cyfagos ac yn athro profiadol, a datblygodd y syniad o sefydlu Ysgol Sul. (Nid hon oedd yr Ysgol Sul gyntaf yn Lloegr gan fod y Methodistiaid cynnar wedi cynnal cyfarfodydd i blant. Cynhaliodd Hannah Ball o High Wycombe Ysgol Sul i blant ac yng Nghaerloyw ym 1777 cychwynnodd Sophia Cooke a'i chwaer Ysgol Sul gyda'r plant oedd yn gweithio yn ffatri binnau ei thad.) Dewiswyd pedair gwraig addas a oedd eisoes yn cadw ysgol. Ymwelasant â chartrefi yn y dref gan berswadio rhai rhieni i anfon eu plant i'r Ysgol Sul. Gwnaed rhestr o 90 o blant rhwng pump a phedair ar ddeg oed. Dim ond un rheol oedd i fynychu'r ysgol sef bod yn rhaid iddynt olchi eu dwylo a'u hwynebau a chribo eu gwallt. Ar y dechrau cynhelid pedwar dosbarth mewn amrywiol leoliadau. Cynhelid un mewn tŷ ac un arall yn Sooty Alley wrth ymyl y

carchar. Dysgwyd y plant i ddarllen a sillafu ond ddim i ysgrifennu, gan mai eu galluogi i ddarllen y Beibl oedd y nod. Roeddent hefyd i ddysgu adnodau o'r Beibl, holwyddoreg ac emynau ar eu cof. Gwaharddwyd rhegi a dysgwyd y disgyblion i barchu eu rhieni. Disgwylid iddynt hefyd fynychu oedfa mewn eglwys ar y Sul.

Yn raddol tyfodd y mudiad a chyhoeddodd Raikes erthyglau yn ei bapur, y *Gloucester Journal,* i hyrwyddo'r gwaith. Dywedodd yn y papur ar 3 Tachwedd 1783 fod nifer o offeiriaid mewn amrywiol ardaloedd o Loegr wedi sefydlu Ysgolion Sul. Mynegodd esgobion Caer a Salisbury eu cefnogaeth fawr i'r gwaith a chyhoeddodd Samuel Glasse, cyfaill i Raikes, gyfrol yn hyrwyddo'r mudiad sef *The Piety, Wisdom and Policy of Promoting Sunday Schools* (1786).

Oherwydd y llwyddiant mawr sefydlodd y Bedyddiwr William Fox y Sunday School Society ym 1785 a'r Sunday School Union ym 1803. Erbyn 1818 roedd 500,000 o blant yn mynychu Ysgol Sul; erbyn 1851 cynyddodd y nifer i 2,500,000 ac erbyn 1898 roedd y nifer wedi cyrraedd 7,500,000. Roedd yr Ysgol Sul nid yn unig yn cyflwyno Cristnogaeth i dlodion, ond hefyd yn rhoi addysg elfennol i blant dosbarth gweithiol na fyddent yn ei chael fel arall. Pan ddaeth addysg orfodol ac ysgolion dyddiol ym 1870 lleihaodd y niferoedd yn yr Ysgol Sul.

Ymddeolodd Raikes o'i waith ym 1802 ar bensiwn o £100 y flwyddyn gan y *Gloucester Journal*. Bu farw ar 5 Ebrill 1811 a chladdwyd ei weddillion yn St Mary le Crypt, Caerloyw. Ym 1880 gosodwyd cerflun ohono gan Sir Thomas Brock ar yr Embankment yn Llundain.